Gweithdrefn Cefnogaeth i Astudio

Gweithdrefn 08: 2026 Fersiwn 1.0
Dyddiad dod i rym: 1 Medi 2026

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Dyddiad	Yn disodli	Disgrifiad o'r Newid
27 Awst 2026	2023 Fersiwn 1.0	Adolygiad i egluro cwmpas a chyfrifoldebau, cryfhau trefniadau diogelu a rheoli risg, ac alinio ag ymarfer gorau'r sector a chanllawiau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA).
12 Ebrill 2023	2021 Fersiwn 01	Diweddariad i gynnwys cyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol, neu noddwyr.
1 Hydref 2021	2018 Fersiwn 2.4	Diweddaru teitlau swyddi ac adrannau yn sgil yr ailstrwythuro. Mae Cam 3 bellach yn rhan o gylch gwaith y Gwasanaethau Llywodraethu. Mae'r Dirprwy i'r Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-gangellorion bellach wedi'u cynnwys mewn Paneli.
1 Chwefror 2021	2018 Fersiwn 2.3	Mân newidiadau i derfynau amser.

Perchennog y Ddogfen	Cymeradwywyd gan	Dyddiad Cymeradwyo	Amlder Adolygu
Cyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd.	27 Awst 2026	Bob tair blynedd.

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

Gweithdrefn Cefnogaeth i Astudio

Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu sut gellir mynegi a chefnogi pryderon am iechyd a llesiant myfyriwr, ac yn rhoi gwybodaeth am gefnogaeth y gellir ei chynnig i'r myfyriwr.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Rhagarweiniad

1. Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol lle mae iechyd neu lesiant myfyriwr yn codi pryder sylweddol, yn cyflwyno risg o niwed i'r myfyriwr neu eraill, neu'n effeithio'n sylweddol ar allu'r Brifysgol i ddarparu ei gwasanaethau neu gefnogi aelodau eraill o gymuned y Brifysgol – hyd yn oed lle nad yw astudiaethau'r myfyriwr ei hun yn cael eu heffeithio fel arall.
2. Gall pryderon ynghylch iechyd neu lesiant myfyriwr gael eu hysgogi gan y canlynol:
    - pryderon ynghylch cynnydd neu gyrhaeddiad myfyriwr a allai fod yn gysylltiedig â'u hiechyd;
    - myfyriwr yn methu â mynychu'r Brifysgol oherwydd eu hiechyd;
    - ymddygiad myfyriwr yn effeithio'n negyddol ar y Brifysgol, myfyrwyr eraill neu gydweithwyr;
    - risg o niwed i'r myfyriwr neu eraill;
    - llesiant ariannol myfyriwr yn arwain at broblemau iechyd neu amodau byw anniogel;
    - myfyriwr yn treulio cyfnod o amser fel claf mewnol yn yr ysbyty.
3. Ni ddylid defnyddio'r weithdrefn ar gyfer y canlynol:
    - Absenoldebau byr cymeradwy (e.e. salwch tymor byr), y dylid eu trin fel absenoldebau awdurdodedig, gyda gwaith cefndirol, adnoddau electronig ac estyniadau i waith cwrs ar gael yn ôl yr angen.
    - Sefyllfaoedd sy'n dod o dan y gweithdrefnau amgylchiadau lliniarol.
    - Estyniadau i gyfnodau cofrestru, a ystyrir o dan y gweithdrefnau ymestyn cyfnod astudio.
    - Achosion disgyblu, a ystyrir o dan y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr.
    - Camymddwyn academaidd, a ystyrir o dan y Weithdrefn Uniondeb Academaidd.
    - Gohirio astudiaethau'n wirfoddol ar sail iechyd neu sail arall cyn, neu yn ystod, Cam 1, a ystyrir o dan y Weithdrefn Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau.
    - Terfynu astudiaethau oherwydd diffyg ymrwymiad neu ymgysylltiad, a ystyrir o dan y Weithdrefn Terfynu Astudiaethau.
    - Cynnydd academaidd, a ystyrir gan Fyrddau Arholi yn unol â'r Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig a'r Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil ôl-radd.

- Gohirio neu derfynu astudiaethau o dan weithdrefnau penodol i gymeradwyo neu ddilysu cwrs, gan gynnwys amodau a osodir gan gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol, neu noddwyr.

4. Mae anawsterau ariannol neu ddyled ar ei ben ei hun, heb unrhyw bryderon iechyd neu lesiant cysylltiedig, y tu hwnt i'r weithdrefn hon a dylid cyfeirio'r myfyriwr at wasanaethau cefnogaeth ariannol y Brifysgol. Nid yw dyled neu amgylchiadau ariannol myfyriwr yn eu heithrio rhag cael cefnogaeth o dan y weithdrefn hon lle mae'r amgylchiadau hynny'n effeithio ar, neu'n cael eu heffeithio gan, eu hiechyd neu eu llesiant.
5. Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i ymateb yn briodol i bryderon sylweddol am iechyd a llesiant myfyriwr, a'r effaith y gallai hynny ei chael ar allu'r myfyriwr i astudio neu ar aelodau eraill o gymuned y Brifysgol.
    - Mae gallu astudio'n effeithiol yn golygu bod myfyriwr yn gallu gwneud y canlynol:
        - mynychu'r Brifysgol pan fo angen;
        - cadw gwybodaeth a ddarparwyd yn y dosbarth neu drwy ymchwil;
        - bod yn bresennol a chwblhau asesiadau yn ôl yr angen;
        - symud ymlaen trwy eu cwrs/rhaglen o fewn yr amserlenni penodedig;
        - cymryd rhan mewn gweithgareddau heb effaith niweidiol sylweddol ar eraill;
        - bodloni holl elfennau proffesiynol eu cwrs/rhaglen lle bo angen;
        - gwneud hynny heb atal y Brifysgol rhag darparu ei gwasanaethau a'i swyddogaethau i fyfyrwyr eraill, staff a'r gymuned ehangach.
6. Lle mae myfyrwyr yn profi anawsterau, bydd y Brifysgol yn mabwysiadu dull cefnogol, gan hyrwyddo egwyddorion cadarnhaol tuag at salwch corfforol neu feddyliol. Ei sefyllfa gychwynnol bob amser yw cefnogi myfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau, neu ddychwelyd i'w hastudiaethau, lle bynnag y bo modd. Mae'r weithdrefn hon yn nodi'r gefnogaeth honno, gan gynnwys lle gallai myfyriwr fod mewn perygl o niwed iddynt eu hunain neu i eraill, ac mae wedi'i chynllunio i sicrhau dull cyson a chefnogol.
7. Gall staff, myfyrwyr neu aelod o'r gymuned godi pryderon ynghylch iechyd neu lesiant myfyriwr.
8. Dylai staff gefnogi sefyllfaoedd o fewn paramedrau eu rôl broffesiynol a dylent ymgynghori â'r Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb os oes pryder sylweddol neu os oes arnynt angen cyngor am sut i symud ymlaen.
9. Pan fydd myfyriwr wedi cofrestru ar raglen broffesiynol, bydd unrhyw ganfyddiad o dan y weithdrefn hon sy'n effeithio ar addasrwydd proffesiynol yn cael ei gyfeirio at y Swyddog Addasrwydd i Ymarfer. Gall mesurau Cefnogaeth i Astudio redeg ochr yn ochr â gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer lle bo'n briodol.
10. Ni ddylid defnyddio'r polisi hwn mewn argyfwng – er enghraifft pan fo myfyriwr yn bygwth niweidio eu hunain, neu wedi anafu eu hunain, neu wedi cael eu hanafu. Mewn argyfwng, dylid galw'r gwasanaethau brys.

Egwyddorion

11. Diben y weithdrefn hon yw cefnogi myfyrwyr a staff wrth ymdrin â sefyllfaoedd sy'n achosi pryder mawr. Mae ganddi dair cam, a bennir gan lefel y risg ganfyddedig a sut mae'r myfyriwr yn ymateb i ymyrraeth. Gall achosion fynd trwy'r tri cham os na chaiff pryderon eu datrys gan gamau gweithredu y cytunwyd arnynt neu gallant ddechrau ar unrhyw gam.
12. Mae cyfathrebu'n hollbwysig wrth asesu risg i iechyd a llesiant myfyriwr. Gall ymyrraeth gynnar ac argymell ffynonellau cefnogaeth atal sefyllfaoedd argyfyngus rhag digwydd.
13. Anogir myfyrwyr, lle bynnag y bo modd, i gymryd rhan weithredol mewn gofalu am eu llesiant eu hunain. Lle nad yw myfyriwr yn gallu gwneud hynny, gellir codi pryderon o hyd a chymryd camau priodol er eu buddiannau.
14. Efallai y bydd gofyn i fyfyriwr sy'n gohirio eu hastudiaethau wrth gael eu cefnogi o dan y weithdrefn hon gyflawni'r gofynion Ailafael mewn Astudiaethau a nodir isod o hyd.
15. Pan fo cyflwr myfyriwr yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i fyw'n annibynnol, neu ddiogelwch y gymuned breswyl, bydd y Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai) yn cydlynu â Thîm Rheolaeth y Neuaddau. Mae Cefnogaeth i Astudio yn canolbwyntio ar barhad academaidd ond gall sbarduno asesiad cyfochrog o dan y Polisi Addasrwydd i Breswylio; lle bo modd, dylai un gynhadledd achos gefnogi'r ddau agwedd gyda'i gilydd.
16. Mae ymgysylltu o dan y weithdrefn hon yn broses a rennir. Bydd y Brifysgol yn cyfathrebu'n glir, yn cynnig hyblygrwydd lle bo modd, ac yn addasu ei dull i ddiwallu anghenion unigol.

Cam 1 – Cefnogaeth gynnar, anffurfiol

17. Cefnogaeth gynnar, anffurfiol a sgwrs agored yw Cam 1, nid proses ddisgyblu; ymdrinnir â materion disgyblu ar wahân. Fe'i defnyddir pan fydd pryderon ynghylch iechyd neu lesiant myfyriwr yn dechrau dod i'r amlwg.
18. Dylai myfyriwr sy'n pryderu am gyd-fyfyriwr drafod hynny gyda phwy bynnag y maent yn teimlo fwyaf cyfforddus – tiwtor, uwch diwtor, Rheolwr Cefnogaeth Breswyl, gweinyddwr, swyddog Undeb y Myfyrwyr, neu aelod arall o staff. Bydd yr aelod staff hwnnw'n gwneud atgyfeiriad priodol neu'n ei drafod yn uniongyrchol gyda'r myfyriwr; ni fydd disgwyl i'r myfyriwr ymdrin â'r mater eu hunain.
19. Dylai aelod o staff sy'n nodi pryder ei godi gyda'r myfyriwr mewn ffordd dosturiol, gan egluro'r pryder ynghylch eu gallu i astudio'n effeithiol. Gall staff gysylltu â'r Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai) i drafod a yw'r weithdrefn hon yn briodol.
20. Dylai Cam 1 nodi natur y pryderon yn glir ac annog y myfyriwr i drafod hynny, gan gynnwys yr effaith bosibl arnynt eu hunain ac eraill. Dylid dweud wrth y myfyriwr fod gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant, a rhoi gwybodaeth iddynt am gael mynediad at gefnogaeth broffesiynol (e.e. y Gwasanaeth Llesiant a Chynwysoldeb, eu meddyg teulu).
21. Dylai'r myfyriwr a'r aelod staff gytuno i gyfarfod eto o fewn 10 diwrnod gwaith i adolygu cynnydd (cyfarfod adolygu Cam 1). Dylid cofnodi'r pwyntiau allweddol a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt, eu hanfon at y myfyriwr o fewn 5 diwrnod

gwaith (Atodiad 1), a'u cofnodi yn y system rheoli achosion; bydd copi hefyd yn mynd at y Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai) i'w fonitro.

22. Dylid dweud wrth y myfyriwr, os bydd pryderon yn parhau, neu os nad yw'r gefnogaeth bresennol yn diwallu eu hanghenion, y gall y Brifysgol symud i Gam 2.

23. Os nad oes ymateb i gyswllt, neu os yw lefel y pryder yn cynyddu, dylai'r aelod staff geisio cyngor gan y Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai), a gallai hynny gynnwys penderfyniad i uwchgyfeirio i Gam 2.

Cam 2 – Cefnogaeth gydlynol a strwythuredig

24. Mae Cam 2 yn darparu cefnogaeth fwy strwythuredig a chydlynol lle mae pryderon yn parhau.

25. Cynhelir Cam 2 gan y Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai), gan weithio gyda gwasanaethau proffesiynol eraill a staff yr Ysgol. Y Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai) sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid dechrau Cam 2, ar ôl derbyn gwybodaeth gan staff perthnasol. Fel arfer, bydd Cam 2 yn dechrau o fewn 10 diwrnod gwaith i'r penderfyniad hwnnw.

26. Mae dechrau Cam 2 yn gofyn am lythyr ffurfiol yn cefnogi Cam 2, a ddylai hwnnw nodi:

    - bod y myfyriwr bellach yn cael eu cefnogi o dan Gam 2;
    - y rhesymau penodol dros gefnogaeth estynedig;
    - beth all ddigwydd os na all y Brifysgol roi cefnogaeth ar waith.

27. Gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod â'r Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai) a'r aelod o staff a gododd y mater. Mae ymgysylltu â Cham 2 yn hanfodol; os yw ymgysylltu'n parhau i fod yn anodd, efallai y bydd angen i'r Brifysgol ystyried Cam 3.

28. Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma. Gall myfyrwyr ofyn am gynnal cyfarfodydd mewn lleoliad niwtral (nid ystafell fwrdd gorfforaethol) neu ar-lein. Mewn achosion sensitif (e.e. sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd), bydd y Brifysgol yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â rhywedd y staff sy'n bresennol ar gyfer cyfarfod Cam 2.

29. Diben y cyfarfod fydd deall beth yw barn y myfyriwr am y materion a nodwyd, gan gynnwys effaith y salwch a/neu'r ymddygiad ar y myfyriwr a/neu aelodau o gymuned y Brifysgol.

30. Dylid dweud wrth y myfyriwr beth yw diben y cyfarfod a'u hysbysu o unrhyw ddogfennau sydd eu hangen. Efallai y byddant yn dod â rhywun gyda nhw – er enghraifft aelod o Undeb y Myfyrwyr, aelod o staff sy'n gweithredu'n fugeiliol, ffrind neu aelod o'r teulu. Gall myfyrwyr anabl hefyd ddod â gweithiwr cefnogi gyda nhw (e.e. dehonglydd iaith arwyddion neu weithiwr iechyd meddwl). Yn y cyfarfod, bydd y myfyriwr yn cyfrannu at gynllun gweithredu ac yn cytuno'n ffurfiol ar gamau gweithredu i weithio tuag atynt. Bydd y Cynllun Gweithredu (Atodiad 2) yn cael ei ddatblygu ar y cyd, gan gydnabod amgylchiadau'r myfyriwr, eu gallu, ac unrhyw rwystrau i ymgysylltu.

31. Os na ellir cytuno ar gynllun gweithredu yng Ngham 2, gall y Brifysgol symud i Gam 3 i sicrhau mesurau diogelu priodol a chefnogaeth estynedig.

32. Bydd adroddiad o'r cyfarfod a'i ganlyniadau'n cael ei gofnodi gan y Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai) a'i ddosbarthu fel y bo'n briodol.
33. Dylid dweud wrth y myfyriwr, os na chaiff y Cynllun Gweithredu ei ddilyn, neu os bydd achos pryder pellach yn codi, y gallai eu hachos symud ymlaen i Gam 3.

Cam 3 – Cefnogaeth estynedig a mesurau diogelu gwell

34. Mae Cam 3 yn dwyn ynghyd cefnogaeth estynedig a mesurau diogelu gwell lle mae risg o niwed yn parhau i fod yn sylweddol.
35. Bydd y Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai) yn cysylltu â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd a'r Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) i drafod yr achos. Os gwneir penderfyniad i symud ymlaen i Gam 3, bydd y canlynol yn berthnasol.
36. Bydd y myfyriwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig y bydd eu hachos yn cael ei adolygu o dan Gam 3, mewn 'Hysbysiad o Symud Cam' ffurfiol sy'n nodi'r rhesymau penodol dros gefnogaeth ychwanegol.
37. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd a'r Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn gofyn am gynnull Panel Eithriadol Cefnogaeth i Astudio. Fel rheol, bydd y Panel yn cael ei gynnull o fewn 10 diwrnod gwaith o wneud y cais.
38. Cyn i'r Panel gyfarfod, bydd y myfyriwr yn cael gwybod pwy fydd yn eistedd arno. Os oes gan y myfyriwr wrthwynebiad penodol, rhesymegol i gyfranogiad aelod o'r panel – er enghraifft, gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, neu gyfranogiad blaenorol yn eu hachos – gallant godi hynny'n ysgrifenedig gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd a'r Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai), a fydd yn penderfynu a ddylid derbyn y gwrthwynebiad ac addasu'r aelodaeth yn unol â hynny. Nid yw dewis cyffredinol yn erbyn presenoldeb aelod yn sail ynddo'i hun dros wrthwynebu.
39. Fel rheol, bydd y rhai sy'n bresennol yng nghyfarfod y Panel yn cynnwys:
    - Y Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor [Cadeirydd]
    - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd a'r Cofrestrydd Academaidd (neu gynrychiolydd enwebedig)
    - Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai)
    - Cynrychiolydd neu gynrychiolwyr perthnasol academaidd/o'r ysgol
    - Cynrychiolwyr priodol o'r timau Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr
    - Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu enwebai)
    - Aelodau priodol o'r gyfarwyddiaeth Bywyd Myfyrwyr (gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, y Gwasanaethau Llety)
    - Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu
    - Cynrychiolydd meddygol priodol, lle bo'n berthnasol ac wedi'i argymell gan y Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai)
    - Ysgrifennydd, wedi'u dewis o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd

40. Bydd y Panel yn penderfynu ar ganlyniad cytunedig, a fydd yn un o'r canlynol fel rheol:
    - Ni chymerir unrhyw gamau;
    - Caniateir i'r myfyriwr barhau ar eu cwrs/rhaglen, neu gwrs/rhaglen arall, gydag amodau ar eu presenoldeb parhaus neu hebddynt (er enghraifft yn ymwneud ag ymddygiad neu ymgysylltu â chefnogaeth), a/neu chyda cefnogaeth ychwanegol yn cael ei rhoi ar waith;
    - Cynhyrchir Cynllun Gweithredu estynedig, sy'n amlinellu camau i wella'r sefyllfa ac unrhyw amodau ar y myfyriwr. Lle bo modd, dylid cytuno ar hynny gyda'r myfyriwr a'i ddogfennu'n ffurfiol yn ysgrifenedig, gan gynnwys goblygiadau peidio â chadw ato. Bydd hyn yn cael ei oruchwylio gan y Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai);
    - Bydd y myfyriwr yn cytuno i gymryd cyfnod o absenoldeb gwirfoddol;
    - Gohirio astudiaethau ar sail iechyd a llesiant.
41. Os bydd y Panel yn argymell Cynllun Gweithredu estynedig, gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod â'r Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai) i drafod a chytuno ar y camau a argymhellir, a gallant ddod â rhywun gyda nhw i'w cefnogi. Bydd gan y cynllun ddyddiad adolygu penodol, ac eglurir beth fydd goblygiadau peidio â chadw ato. Anfonir copi at aelodau staff perthnasol yn y tîm Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr, staff perthnasol mewn Gwasanaethau Proffesiynol eraill (e.e. y Gwasanaethau Llety), a'r Uwch Diwtor.
42. Bwriedir i unrhyw ohiriad fod dros dro, yn gymesur, ac yn canolbwyntio ar gefnogi'r myfyriwr i ddychwelyd yn y pen draw. Rhaid i'r Panel nodi hyd disgwyliedig y gohiriad pan gytunir arno.
43. Os daw'n angenrheidiol ymestyn gohiriad y tu hwnt i'r cyfnod penodedig, bydd y Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai) yn adolygu a yw'n parhau i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur cyn ei ymestyn (gyda chymeradwyaeth y Dirprwy i'r Is-ganghellor neu'r Dirprwy Is-ganghellor), ni waeth a yw'r myfyriwr wedi herio hynny ai peidio. Mae hyn yn ychwanegol at yr adolygiad sy'n berthnasol lle mae gohiriad yn ymestyn y tu hwnt i un flwyddyn academaidd, a nodir o dan yr adran Ailafael mewn Astudiaethau, isod.
44. Mae gan ohirio astudiaethau ganlyniadau ymarferol y dylai'r myfyriwr gael gwybod amdanynt ar adeg y penderfyniad, gan gynnwys: cymhwystra ar gyfer cyllid myfyrwyr yn y flwyddyn academaidd gyfredol a'r dyfodol; i fyfyrwyr rhyngwladol, yr effaith ar eu statws fisa, gan ei bod yn ofynnol i'r Brifysgol roi gwybod am newidiadau mewn statws i'r Swyddfa Gartref; cymhwystra parhaus ar gyfer byw yn llety'r Brifysgol; ac atebolrwydd o ran ffioedd dysgu. Bydd y Brifysgol yn cyfeirio'r myfyriwr at y cyngor arbenigol perthnasol (cefnogaeth ariannol, cyngor mewnfudo, y gwasanaethau llety) ochr yn ochr â'r penderfyniad.
45. Os mai gohirio astudiaethau yw'r canlyniad y cytunwyd arno, bydd y myfyriwr yn cael gwybod hynny'n ysgrifenedig gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd a'r Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai). Mewn rhai achosion, efallai bydd angen hysbysu'r myfyriwr ar lafar bod eu hastudiaethau'n cael eu gohirio ar unwaith, ac y bydd llythyr ffurfiol yn dilyn.

46. Dim ond mewn achosion difrifol iawn y penderfynir gohirio astudiaethau, a phan fo pob dull cefnogi wedi'u defnyddio, pan na fydd y myfyriwr yn fodlon gohirio eu hastudiaethau'n wirfoddol, neu pan nad ydynt wedi ymgysylltu â'r gefnogaeth gytunedig. Y bwriad yw rhoi amser i'r myfyriwr fynd i'r afael â materion iechyd a llesiant cyn ailafael yn eu hastudiaethau.
47. Lle mae risg gyfredol a sylweddol o niwed i'r myfyriwr neu eraill, gall y Panel gytuno i ohirio astudiaethau ar unwaith, waeth pa gefnogaeth a geisiwyd yn flaenorol neu ba mor bell y mae'r achos wedi mynd drwy'r camau. Mae cyflymder yn bwysig yn yr achosion hyn, ac mae'r llwybr hwn yn bodoli'n union fel nad yw gohirio astudiaethau yn cael ei atal nes bod opsiynau eraill wedi'u ceisio.

Ailafael mewn Astudiaethau

48. Bwriad y broses Ailafael mewn Astudiaethau yw cefnogi'r myfyriwr i ddychwelyd mewn ffordd gynaliadwy a hyderus, nid asesu na herio cyflwr iechyd y myfyriwr.
49. Bydd y Brifysgol yn cysylltu â'r myfyriwr am y tro cyntaf tua 6 wythnos cyn i'r gohiriad ddod i ben, i esbonio'r broses Ailafael mewn Astudiaethau a'r dystiolaeth sydd ei hangen.
50. Dylai myfyriwr sy'n dymuno dychwelyd hysbysu'r Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai) yn ysgrifenedig, a dim hwyrach na 3 wythnos cyn i'r gohiriad ddod i ben, gan ddarparu gwybodaeth gan weithiwr proffesiynol cymwysedig (er enghraifft meddyg teulu, ymarferydd iechyd meddwl, neu weithiwr proffesiynol cefnogol arall) yn cadarnhau pa gefnogaeth neu addasiadau a allai fod eu hangen. Lle bo modd, dylid defnyddio'r ffurflen Ailafael mewn Astudiaethau safonol.
51. Yna cynhelir cyfarfod dychwelyd gorfodol, fel rheol o fewn y 3 wythnos olaf cyn i'r gohiriad ddod i ben, fel bod unrhyw addasiadau ar waith cyn i'r myfyriwr ailddechrau astudio. Y pwrpas yw cefnogi'r myfyriwr i ddychwelyd, nid asesu na herio eu cyflwr meddygol.
52. Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i ganiatáu i'r myfyriwr barhau gyda'u hastudiaethau, o fewn y cyfyngiadau a osodir gan reoliadau'r Brifysgol. Gallai hyn gynnwys ailadrodd cyfnodau astudio; bydd a yw hynny'n ymarferol ac yn rhesymol yn cael ei benderfynu fesul achos.
53. Os yw'r Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb yn ystyried nad yw'r myfyriwr yn gallu dychwelyd oherwydd na allant fodloni'r gofynion hyn, gallant wneud cais i'r Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor i awdurdodi estyniad i gyfnod y gohiriad.
54. Fel rheol, bydd gohiriad, neu gyfres o ohiriadau sy'n ymwneud â'r un achos, yn sbarduno adolygiad ynghylch a ellir cefnogi'r myfyriwr i barhau â'u hastudiaethau os yw'r gohiriad yn ymestyn y tu hwnt i un flwyddyn academaidd, neu lle nad yw'r myfyriwr yn ymgysylltu yn ystod y cam ailafael mewn astudiaethau. Gall amgylchiadau eraill hefyd sbarduno adolygiad. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw'r dull presennol yn parhau i fod yn ymarferol neu a ddylai'r achos symud tuag at dynnu'n ôl o'r Brifysgol. Bydd y myfyriwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig am y canlyniad, gyda'r hawl i apelio wedi'i nodi isod.

Y Drefn Apelio

55. Mae'r broses apelio yn bodoli i sicrhau tegwch, cymesuredd a thryloywder wrth wneud penderfyniadau. Gellir cyflwyno apeliadau yn erbyn penderfyniad y Panel Eithriadol Cefnogaeth i Astudio (paragraff 40) i'r Is-ganghellor, yn ysgrifenedig, o fewn 10 diwrnod gwaith i'r myfyriwr dderbyn hysbysiad o'r penderfyniad.

56. Ystyrir apeliadau am y rhesymau a ganlyn yn unig:

    - anghysondebau gweithdrefnol yn ymddygiad y Panel a allai fod wedi effeithio ar ei benderfyniad;
    - amgylchiadau personol eithriadol sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y Panel, a gall yr apelydd esbonio pam na chafodd y Panel eu hysbysu amdanynt ymlaen llaw – ni ellir defnyddio amgylchiadau y gellid bod wedi'u hadrodd ond na wnaed hynny fel sail dros apelio yn ddiweddarach;
    - roedd y penderfyniad yn un na allai unrhyw Banel rhesymol fod wedi'i gyrraedd ar sail y dystiolaeth oedd ar gael, neu roedd y canlyniad yn amlwg yn anghymesur ag amgylchiadau'r achos.

57. Bydd yr Is-ganghellor (neu enwebai) yn ymchwilio i'r pryderon ym mha bynnag ffordd sy'n briodol i gasglu gwybodaeth lawn a pherthnasol cyn penderfynu ar yr apêl, fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith i'w derbyn.

58. Gall yr Is-ganghellor ddod i un o'r casgliadau canlynol:

    - Peidio â chadarnhau'r apêl. Bydd yr Is-ganghellor yn ysgrifennu at yr apelydd i gadarnhau hynny ac i nodi bod gweithdrefnau'r Brifysgol wedi'u cwblhau.
    - Cadarnhau'r apêl. Bydd yr Is-ganghellor yn trefnu Panel Eithriadol Cefnogaeth i Astudio pellach, fel rheol gydag aelodaeth wahanol, a bydd yn nodi ar ba sail y cadarnhawyd yr apêl.

59. Mae penderfyniad yr Is-ganghellor yn derfynol.

60. Mae gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch gynllun annibynnol i adolygu cwynion gan fyfyrwyr, y mae Prifysgol Bangor yn aelod ohono. Os yw myfyriwr yn parhau i fod yn anfodlon â chanlyniad y weithdrefn hon, gallant ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol adolygu'r achos: https://www.oiahe.org.uk/students

61. Bydd rhaid i fyfyriwr fod wedi cwblhau pob cam yn y weithdrefn hon cyn cyfeirio'r mater i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Cyhoeddir 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' pan fydd myfyriwr yn cyrraedd diwedd y prosesau hyn heb unrhyw gamau mewnol pellach ar gael. Os na chaiff apêl ei chadarnhau, bydd y llythyr hwn yn cael ei anfon yn awtomatig, fel rheol o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad hwnnw. Os caiff apêl ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol, gall myfyriwr ofyn am un o hyd os ydynt ei eisiau.

62. I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, rhaid i fyfyriwr gwblhau Ffurflen Gwyno Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a'i chyflwyno cyn pen 12 mis wedi dyddiad penderfyniad terfynol y Brifysgol (fel arfer y dyddiad a ddangosir ar y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau).

Camau Disgyblu

63. Fel arfer, bydd y Weithdrefn Cefnogaeth i Astudio hon a'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr yn rhedeg ochr yn ochr, yn hytrach na bod un yn cael blaenoriaeth dros y

llall. Lle mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod yr ymddygiad yn gysylltiedig â chyflwr iechyd neu lesiant, ac nad yw'n cynnwys camymddwyn difrifol na risg o niwed i berson arall, gall y Weithdrefn Cefnogaeth i Astudio hon gael blaenoriaeth; mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i newid rhwng gweithdrefnau os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

64. Pan fydd honiad yn cynnwys camymddwyn difrifol, risg o niwed i berson arall, neu bryder diogelu, bydd y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr ac unrhyw fesurau dros dro (gan gynnwys gohiriad, gwaharddiad neu ofyniad dim cyswllt) yn cael eu gweithredu ni waeth beth am unrhyw broses Cefnogaeth i Astudio gyfochrog. Nid yw adroddiad myfyriwr o gyflwr iechyd neu lesiant yn oedi nac yn diystyru camau disgyblu neu ddiogelu yn yr achosion hynny, er y gellir ei ystyried o hyd o fewn y Weithdrefn Ddisgyblu ei hun.

Monitro

65. Cesglir data am y defnydd o'r drefn hon fel a ganlyn:
    - nifer yr achosion ar bob cam o'r weithdrefn,
    - nifer y myfyrwyr sy'n gorfod gohirio astudiaethau,
    - canlyniadau terfynol e.e. dychwelyd i astudio.
66. Caiff yr holl wybodaeth uchod ei monitro yn ôl coleg ac ysgol, ac yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anabledd, oedran, crefydd neu gred, a chyfeiriadedd rhywiol lle bo'n bosibl, i sicrhau y gweithredir y weithdrefn yn deg ac yn gyson.
67. Bydd y Pennaeth Llesiant a Chynwysoldeb (neu enwebai) yn casglu'r data hwn ac yn codi unrhyw faterion sy'n codi gyda'r Cyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr.

Atodiad 1



Cofnod o bryder am iechyd a llesiant myfyriwr		
Dyddiad:		
Enw'r myfyriwr:		Rhif adnabod: 500_____
Manylion cyswllt:	Cyfeiriad lleol:	
	Ffôn:	
	E-bost:	
Cyswllt dibynadwy'r myfyriwr:		
Meddyg Teulu'r myfyriwr: (os yw'n briodol)		
Trafodwyd pryderon gyda: (h.y. aelod staff)		
Crynodeb o'r pryderon:		

Unrhyw wybodaeth/sylwadau eraill:	

Datganiad:

Mae'r datganiad hwn yn cadarnhau dealltwriaeth a rennir o'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig a'r camau nesaf.

1. Rwy'n deall natur y pryder/pryderon a godwyd gan y Brifysgol, fel yr eglurwyd i mi ac a amlinellwyd yn y ddogfen hon, a'r effaith posibl y gallai'r pryder hwn/y pryderon hyn eu cael ar fy ngallu i astudio ar hyn o bryd. Rwyf wedi cymryd rhan yn y cyfarfod hwn ac wedi cael cyfle i drafod y pryderon a godwyd ynghylch fy llesiant.
2. Rwy'n cydnabod bod y Cynllun Gweithredu uchod wedi'i gynllunio i gefnogi fy astudiaeth barhaus, ac rwy'n cytuno i weithio tuag at y nodau hyn.
3. Rwy'n deall, os na allaf ymgysylltu â'r gefnogaeth hon, neu os bydd y risg o niwed yn cynyddu, y gallai fod angen i'r Brifysgol gymryd camau pellach o dan y Weithdrefn Cefnogaeth i Astudio (Cam 2/3) i sicrhau fy niogelwch a diogelwch y gymuned.
4. Hysbysiad Prosesu Data: Rwy'n deall y bydd y cofnod hwn yn cael ei storio'n gyfrinachol. Rwy'n cydnabod, mewn sefyllfaoedd risg uchel, y gallai'r Brifysgol rannu gwybodaeth angenrheidiol gyda gwasanaethau mewnol perthnasol neu asiantaethau allanol (e.e., y GIG, y Gwasanaethau Brys) lle bo'n gwbl angenrheidiol i amddiffyn fy muddiannau hanfodol neu ddiogelwch eraill, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.

Rwyf hefyd yn llofnodi i gytuno i fynd i gyfarfod adolygu ar yr adeg y cytunwyd arno, er mwyn gweld pa gynnydd rwyf wedi ei wneud.

Enw'r myfyriwr_____ Llofnod_____

Aelod staff _____ Llofnod_____

Dyddiad _____ Dyddiad adolygu_____

Atodiad 2

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Cynllun Gweithredu

Dyddiad:

Enw'r Myfyriwr:		**Aelod Staff sy'n Arwain:**	
Rhif Adnabod Myfyriwr:			
Cefnogwr yn Bresennol:			
Crynodeb o'r Pryderon: ***Amlinellwch yn gryno y pryderon iechyd/llesiant a drafodwyd a'u heffaith ar y gallu i astudio neu ar gymuned y brifysgol.***			
Datganiad o Amcan/Nod			

Beth yw anghenion allweddol y myfyriwr?	Camau gweithredu i'w cwblhau	Pwy fydd yn cwblhau'r camau gweithredu ac erbyn pryd?	Dyddiad adolygu	Sut caiff llwyddiant ei fesur?

Llofnod y Myfyriwr: _____ Llofnod yr Aelod Staff: _____

Dyddiad: _____ Dyddiad: _____